**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwiliad Craffu – Gweithio Rhanbarthol

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 15 Hydref 2019 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C A Holley | M H Jones | B J Rowlands |
| R C Stewart | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Michelle Roberts | Scrutiny Officer |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): T M White

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Ymateb y Cabinet i Ymchwiliad Craffu i Waith Ranbarthol dilyn i fyny**

Darparodd y Cyng. Rob Stewart (Arweinydd) a'r Prif Weithredwr, Phil Roberts, adroddiad effaith ac roeddent yng nghyfarfod y panel i drafod cynnydd o ran yr argymhellion a gytunwyd gan y Cabinet ar 18 Awst 2018 a ddeilliodd o'r Ymchwiliad Craffu Gweithio Rhanbarthol.

Ers i'r ymchwiliad ddod i ben, cafwyd y newidiadau canlynol:
- Mae manylion cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwell cydweithio a gweithrediad Cyd-bwyllgorau yn dod yn gliriach.
- Mae CLlLC wedi bod mewn trafodaethau manwl â Llywodraeth Cymru
- Mae'n debygol y cyhoeddir Bil ym mis Tachwedd.
- Mae'r Prif Weithredwr wedi cynnal sesiynau anffurfiol â'r Gweinidog a chydag uwch-weision sifil gyda golwg ar baratoi cynnig rhanbarthol yn dilyn trafodaeth â chynghorau cyfagos.

Mae'r ymchwiliad wedi:
- codi proffil y mater dan sylw
- helpu i hysbysu a darparu eglurder ynghylch ymagwedd y cyngor at gydweithio rhanbarthol

Cynnydd gyda'r argymhellion
*Arg 1 Wedi'i gwblhau'n rhannol* - Mae'r adolygiad o uwch-reolwyr wedi darparu rhagor o allu. Mae'r Prif Weithredwr wedi'i benodi fel Prif Swyddog Gweithredol ERW. Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr wedi cynnal sesiynau anffurfiol â'r Gweinidog a chydag uwch-weision sifil gyda golwg ar baratoi cynnig rhanbarthol yn dilyn trafodaeth â chynghorau cyfagos.
*Arg 2 Wedi'i gwblhau* - Mae'r tri phrif bartneriaeth cydweithio (ERW, Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Phartneriaeth Gorllewin Morgannwg) wedi cynnal adolygiadau systematig i sicrhau bod adnoddau ar gael a rhwystrau wedi'u dileu.
*Arg 3 Wedi'i gwblhau'n rhannol* - Mae adolygiadau'r trefniadau presennol wedi cyfeirio'r strategaeth sy'n cael ei datblygu ar gyfer cydweithio, a'r dewis o batrwm cydweithredu pedwar cyngor fel sail ar gyfer trefniadau partneriaeth yn y dyfodol.
*Cynnydd Arg 4 wedi'i gwblhau* - Adolygwyd pob partneriaeth ac mae trefniadau llywodraethu gwell ar waith.
*Cynnydd Arg 5 wedi'i gwblhau* - Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn arwain pob partneriaeth ac wrth gyfathrebu â'r tîm craffu.
*Cynnydd Arg 6 wedi'i gwblhau'n rhannol* - Mae'r holl bartneriaethau wedi'u hadolygu ond erys rhai anghysondebau yn y trefniadau gweinyddol rhyngddynt.
*Cynnydd Arg 7 wedi'i gwblhau'n rhannol* - cynhaliwyd adolygiadau ar wahân ar yr holl bartneriaethau, ond gyda themâu cyffredin ar lywodraethu, rheoli a gwerth am arian. Bydd angen i unrhyw gynnig rhanbarthol fynd i'r afael â'r angen am resymoli neu uno.
*Cynnydd Arg 8 heb ei gwblhau* - er bod y defnydd o Skype yn cynyddu, mae lefel y gallu a'r adnoddau technolegol yn amrywio rhwng cynghorau. Bydd cynnig ar gyfer cydweithio rhanbarthol yn ceisio mynd i'r afael â hyn a cheisir cyllid gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny.
*Cynnydd Arg 9 wedi'i gwblhau* - caiff y trydydd sector a chyrff preifat eu cynnwys wrth gydweithio yn y meysydd gofal cymdeithasol a datblygu economaidd.
*Cynnydd Arg 10 wedi'i gwblhau* - gwnaed sylwadau helaeth a rheolaidd ar bob un o ardaloedd y tair partneriaeth.
*Cynnydd Arg 11 wedi'i gwblhau* - mae pob partneriaeth wedi cynnal adolygiadau manwl. Cytunwyd ar adroddiad cynnydd yng nghyfarfod y cyngor ar 25 Gorffennaf 2019.

Nodwyd y pwyntiau canlynol o'r drafodaeth:

Clywodd y Panel, ers i'r ymchwiliad ddod i ben yn 2018, y bu peth datblygiad o ran gweithio rhanbarthol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys manylion mwy clir gan Lywodraeth Cymru ar y cynnig am well cydweithio a gweithredu cydbwyllgorau. Mae CLlLC wedi bod yn rhan o'r trafodaethau manwl â Llywodraeth Cymru, ac mae Bil ar gyfer Cymru sy'n manylu ar y rhain a newidiadau eraill ar ddod.

Roedd y Panel yn falch o glywed bod y Prif Weithredwr wedi bod yn cynnal trafodaethau anffurfiol â'r gweinidog a chydag uwch-weision sifil er mwyn paratoi cynnig rhanbarthol yn dilyn trafodaethau â chynghorau cyfagos.

Clywodd y Panel fod adolygiadau o'r trefniadau presennol wedi cyfeirio'r strategaeth sy'n cael ei datblygu ar gyfer cydweithio, a'r dewis o batrwm cydweithredu pedwar cyngor fel sail ar gyfer trefniadau partneriaeth yn y dyfodol. Eglurwyd mai'r ardal fwyaf rhesymegol i Abertawe yw ardal y Dinas-ranbarth, sy'n cynnwys y pedwar awdurdod lleol sef Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Sir Gâr ac Abertawe. Er ni fyddai hyn yn

cynnwys Iechyd ar hyn o bryd gan fod ystyriaethau ynghylch hyn dipyn yn fwy cymhleth. Roedd y Panel yn teimlo ei bod hi'n gadarnhaol iawn fod gennym eglurder ymysg y pedwar awdurdod lleol ynghylch y ffordd i symud ymlaen. Mae cynghorwyr yn cydnabod bod gan y pedwar awdurdod hwn brofiad o gyflwyno prosiectau gyda'i gilydd, ac mae ganddynt strategaethau cyffredin, yn enwedig o ran datblygiad economaidd a gwella addysg.

Roedd y Panel yn falch o glywed y cynhaliwyd adolygiadau ar wahân ar y tair partneriaeth ranbarthol ac yn falch o glywed bod y themâu cyffredin llywodraethu, rheoli a gwerth am arian yn cael sylw arbennig.

Eglurwyd mai ychydig o gynnydd a wnaed o ran ein hargymhelliad am *wella technoleg fodern er mwyn lleihau teithio i gyfarfodydd.* Er bod y defnydd o Skype yn cynyddu, mae lefel y gallu a'r adnoddau technolegol yn amrywio rhwng cynghorau. Bydd cynnig ar gyfer cydweithio rhanbarthol yn ceisio mynd i'r afael â hyn a cheisir cyllid gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny. Cytunodd y Panel fod angen safoni'r isadeiledd ar draws cynghorau yng Nghymru a buddsoddi ynddo er mwyn datblygu hyn, a chytunwn i ysgrifennu at y Gweinidog i gefnogi'r cynnig hwn.

Clywodd y Panel am y gwersi a ddysgwyd o'n gweithgareddau cydweithredol a sut bydd yr hyn a ddysgwyd yn fuddiol i ni mewn gweithgareddau cydweithredol yn y dyfodol yn enwedig yr angen am reoli rhaglenni'n dda, llywodraethu clir a chadarn a rhannu cyfrifoldeb, gan ddangos diddordeb mawr yn hyn.

Clywodd y Panel y bydd y Bil i Gymru'n debygol o gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2019 a bydd yn amlinellu'r pwerau a'r cyfrifoldebau newydd i gynghorau lleol. Bydd yn creu heriau a manteision. Bydd pŵer cymhwyster cyffredinol yn hynod bwysig a bydd yn dileu biwrocratiaeth ddiangen sy'n ymwneud ag archwilio parhaus, a chyflwynir adolygiadau gan gynghreiriaid yn lle. Cytunodd cynghorwyr fod yn rhaid cael adnoddau ariannol gyda'r pwerau a'r cyfrifoldebau newydd i sicrhau y gellir eu cyflawni'n wirioneddol.

Roedd y Panel yn falch o glywed bod yr ymchwiliad wedi helpu i godi proffil gweithio rhanbarthol a'i fod wedi hysbysu pobl a darparu eglurder ar ymagwedd y cyngor at gydweithio rhanbarthol. Cytunodd y Panel fod yr ymchwiliad hwn yn gyflawn.

Cytunodd y Panel:

- I gymeradwyo'r argymhellion a chwblhau'r ymchwiliad hwn.
- Y bydd Cynullydd y Panel yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet yn amlinellu meddyliau'r panel sy'n deillio o'r cyfarfod hwn.
- Y caiff llythyr ei ysgrifennu at Weinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am faterion technoleg i gefnogi'r angen am safoni'r isadeiledd a buddsoddi ynddo fel y gall cynghorwyr a swyddogion gwrdd o bell.
- Y bydd yr Adroddiad Blynyddol ar Weithio Rhanbarthol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Rhaglen Graffu bob blwyddyn.

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**To/**
**Councillor Rob Stewart**
**Cabinet Member for Economy and Strategy**

| | |
|---|---|
| *Please ask for: Gofynnwch am:* | Scrutiny |
| *Direct Line: Llinell Uniongyrochol:* | 01792 637256 |
| *e-Mail e-Bost:* | scrutiny@swansea.gov.uk |
| *Date Dyddiad:* | 4 November 2019 |


**BY EMAIL**

Summary: This is a letter from the Regional Working Scrutiny Inquiry Panel to the Cabinet Member for Economy and Strategy following the meeting of the Panel on 15 October 2019. It is about progress with recommendations resulting from a scrutiny inquiry into regional working.

Dear Councillor Stewart,

**Regional Working Scrutiny Inquiry Panel – 15 October 2019**

We would like to thank you and Phil Roberts for providing an impact report and attending our Panel meeting to discuss progress with the recommendations agreed by Cabinet on 18 August 2018 that had resulted from the Regional Working Scrutiny Inquiry.

You told us that since the inquiry concluded in 2018, there has been some movement in relation to regional working in Wales. This includes clearer details from Welsh Government on the proposals for improved collaboration and the operation of Joint Committees. In addition, the WLGA have been involved in detailed discussions with Welsh Government and a Wales Bill detailing these and other changes is now imminent.

We were pleased to hear that the Chief Executive has been holding informal discussions with the Minister and with senior civil servants with a view to preparing a regional proposition following discussions with neighbouring councils.

We heard that reviews of the existing arrangements have informed the developing strategy for collaboration and the preference for a four council footprint in South West Wales as a basis for future partnership arrangements. You explained that the most logical footprint for Swansea is that of the City Region area, which includes the four Local Authorities of Neath Port Talbot, Pembrokeshire,

Carmarthenshire and Swansea. Although, you did say that this would not include Health for the moment because considerations around this are rather more complex. We felt that it is very positive that we have clarity amongst the four local authorities about the way to move forward. We recognise that these four authorities have experience of delivering projects together and have many common strategies, especially around economic development and education improvement.

We were pleased to hear that separate reviews have been undertaken on all three regional partnerships and to hear that the common themes of governance, management and value for money are being looked at.

You explained that little progress had been made in relation to our recommendation about *improving modern technology in order to reduce travel to meetings*. You said that whilst the use of Skype is increasing the level of technological capability and capacity varies between councils. A regional collaboration proposition will aim to address this and seek funding from Welsh Government to do so. We agree that standardisation and investment in the infrastructure across Councils in Wales is needed to move this forward and we agreed to write to the Minister in support of this proposition.

We were interested to hear about the lessons that have been learnt from our current collaborative activities and how this will be of benefit to us in future especially in relation to the need for good programme management, clear and strong governance and sharing of responsibility.

You told us that in November 2019 a legislative Bill is likely to be published that will outline new powers and responsibilities for local councils. It will create challenges and benefits. It will include the general power of competence, which will be hugely important and will sweep away unnecessary bureaucracy around continuous audit introducing peer review. We agreed financial resources must follow any new powers and responsibilities to ensure they can truly be met.

We were pleased to hear that the inquiry had helped to raise the profile of regional working and that it has informed and began to provide clarity on the Council's approach to regional collaboration. We have agreed to sign off this Inquiry as complete and we would like to thank you for your engagement in this piece of work.

Yours sincerely,

**COUNCILLOR LYNDON JONES**
Convener, Regional Working Scrutiny Inquiry Panel
🖂 Cllr.lyndon.jones@swansea.gov.uk